

Jeremy Miles AS
Y Cwnsler Cyffredinol

9 Hydref 2020

Annwyl Jeremy

Drafftio Biliau Cymru

Yn ein cyfarfod ar **5 Hydref 2020**, gwnaethom graffu ar y **Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)** a chlywsom gan Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg. Roedd hon yn sesiwn gadarnhaol, yn ein barn ni, ac rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei hymatebion llawn a manwl i'n cwestiynau.

Wrth graffu ar y Bil hwn, un o'r materion a ddaeth i'r amlwg oedd y modd y mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ddrafftio deddfwriaeth. Yn sgil y gwaith o graffu ar y Bil Deddfwriaeth (Cymru) - sef **Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019** yn awr - rydym yn ymwybodol y bydd Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, erbyn y Chweched Senedd, o dan ddyletsydd i baratoi rhaglen weithredu gyda'r nod o wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Rydym yn croesawu hyn yn fawr. Wrth geisio sicrhau bod hygyrchedd cyfraith Cymru yn parhau i gael ei adolygu, rydym hefyd yn ymwybodol y dylai Gweinidogion Cymru ystyried sut y gallai cynnig ar gyfer deddfwriaeth newydd effeithio ar hygyrchedd y gyfraith. Mae hyn eto i'w groesawu.

Fis Tachwedd diwethaf, fe wnaethoch drefnu i'r Pwyllgor gael **gopi o ganllawiau** Llywodraeth Cymru ar ddrafftio deddfwriaeth, sef **Drafftio Deddfau i Gymru**, a hynny cyn ichi ddod i'n cyfarfod pwyllgor ar **18 Tachwedd 2019** pan drafodwyd eich cynlluniau ar gyfer dosbarthu, cydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru.

Rydym yn cytuno bod cydgrynhoi cyfraith Cymru, yn enwedig am resymau hygyrchedd, yn dasg bwysig a gwerthfawr. Gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn ymdrechu yn y Chweched Senedd i fynd i'r afael â'r toreth o gyfreithiau sy'n gymwys yng Nghymru a'r cymhlethdod cynhenid sy'n bodoli.

O edrych ar raglen deddfwriaeth sylfaenol ddiweddar Llywodraeth Cymru, nid yw'n eglur sut yr ystyriwyd cydgrynhoi'r gyfraith bresennol yn rhannol. Rydym hefyd yn ansicr a yw Llywodraeth Cymru, wrth greu deddfwriaeth newydd, wedi ceisio defnyddio'r cyfle i gael



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddDCC@senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddLJC@senedd.wales

 0300 200 6565

gwared ar ddarpariaethau sydd wedi darfod. At hyn, hoffem wybod sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud wrth ddatblygu Bil drafft ynghylch a ddylid ailddatgan darpariaethau mewn Deddfau ar gyfer y DU gyfan sydd, wrth gwrs, ar gael yn Saesneg yn unig.

Rydym wedi nodi'r paragraff a ganlyn yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, Drafftio Deddfau i Gymru:

4.11 (1) - Os bydd Bil neu offeryn statudol yn defnyddio term y bwriedir iddo fod â'r ystyr sydd wedi ei rhoi mewn darn o ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, ystyriwch bob amser a fyddai'n well ailddatgan y diffiniad yn llawn yn hytrach na chymhwyso'r diffiniad presennol. (Peidiwch â gwneud y ddau.) Gall copïo'r diffiniad fod yn fwy defnyddiol os yw'n bwysig neu'n gymharol fyr; ac os cafodd y ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli ei gwneud yn uniaith Saesneg, bydd ailddatgan y diffiniad yn sicrhau bod fersiwn Gymraeg ar gael hefyd.

Gan ddefnyddio'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) (y Bil) fel astudiaeth achos, er ein bod yn derbyn nad yw'r Bil yn ymestyn i faes addysg yn ei ystyr ehangaf, nodwn nad yw'r Bil yn darparu diffiniadau (o fewn y Bil ei hun) o nifer o dermau allweddol, gan gynnwys y diffiniad o 'riant' er enghraifft. Yn hytrach, mae adran 77(2) yn darparu mai'r un ystyr sydd i ymadroddion yn y Bil nad ydynt wedi'u diffinio ag a roddir iddynt yn Neddf Addysg 1996 (Deddf 1996). Caiff 'rhaint' ei ddiffinio yn adran 576 o'r Ddeddf honno.

Rydym yn derbyn bod y gwaith o gydgrynhoi cyfraith sy'n gysylltiedig ag addysg fel y mae'n gymwys yng Nghymru yn gryn dasg a dim ond rhan o raglen ehangach i ddiwygio addysg yng Nghymru yw'r Bil, ac rydym yn ddiolchgar am sylwadau defnyddiol y Gweinidog a'i swyddog yn ystod ein cyfarfod ar 5 Hydref. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r Bil hwn yn benodol, byddem yn falch o gael eich barn am y rheswm pam, fel dull drafftio cyffredinol, na fanteisiwyd ar y cyfle i ailddatgan holl ddiffiniadau perthnasol Deddf 1996 yn y Bil, yn enwedig fel modd o ddarparu ar gyfer diffiniadau dwyieithog o dermau allweddol. Nodwn fod y Bil yn cyfeirio at rai diffiniadau, er enghraifft "uned atgyfeirio disgyblion (adran 76 (1) a "maes llafur cytunedig" (paragraff 9 yn Atodlen 1). Yn eich ymateb, a fyddech cystal â chynnwys sylwadau ar ddulliau gwahanol o ailddatgan diffiniadau mewn deddfwriaeth, er enghraifft drwy ddefnyddio nodiadau esboniadol.

Hoffwn danlinellu ein bod, wrth ysgrifennu'r llythyr hwn, yn ceisio cael gwell dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu'r rhai sy'n drafftio deddfwriaeth pan fydd angen defnyddio diffiniadau sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth a ddaeth i rym cyn datganoli.

Rwyf wedi anfon copi o'r ohebiaeth hon at y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl.



Yn gywir

A handwritten signature in black ink, reading "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Mick Antoniw AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

